



Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales

Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Caron National Nature Reserve

Croeso i'r Warchodfa | Welcome to the Reserve

Croeso i Warchodfa Natur Genedlaethol Cors Caron

Mae'r warchodfa fawr hon yn cwmpasu ardal o dros 800ha (neu dair milltir sgwâr). Mae'r tair cyforgors yn fyd-enwog – sef ardaloedd o fawn dwfn sydd wedi datblygu dros y 12,000 o flynyddoedd diwethaf. Canolbwynt y warchodfa yw afon Teifi a'i gorllifdir.

Mae'r rhain wedi'u hamgylchynu gan amrywiaeth gyfoethog o gynefinoedd, sy'n gwneud y warchodfa yn safle ardderchog ar gyfer bywyd gwylt.

Fry uwchben y warchodfa mae'n bosibl gweld barcut, hebog yr ieir, y gylfinir a'r ehedydd yn hedfan, tra bod gwas y neidr, madfall a'r dyfrgi yn symud drwy'r gors.

Tair Cyforgors Fawr: Dyma rai o'r enghreifftiau gorau o gyforgorsydd mawr ym Mrydain, gyda miliynau o fetrau ciwbig o fawn hyd at ddyfnder o ddeg metr.

Afon Teifi a'i gorllifdir: O bwysigrwydd rhyngwladol fel Ardal Cadwraeth Arbennig Ewropeaidd mae'r gorllifdir helaeth yn wyllt ac anghysbell.

Llwybr yr Hen Reilffordd: Mae llwybr yr hen reilffordd o Aberystwyth i Gaerfyrddin, sy'n dilyn ymyl Cors Caron, wedi datblygu ystod eang o gynefinoedd ers cau'r rheilffordd yn y 1960au. Mae'n ffurfio rhan o Llwybr Beicio Cenedlaethol Ystwyth

Welcome to Cors Caron National Nature Reserve (NNR)

This large reserve covers an area of over 800ha (or three square miles). The three raised bogs are world famous – areas of deep peat that have built up over the last 12,000 years. The river Teifi and its floodplain form the centre of the reserve.

These are surrounded by a rich mix of habitats, making the reserve a fantastic place for wildlife.

Red kite, hen harrier, curlew and skylark can fill the skies above the reserve, whilst the bog itself bustles with dragonflies, lizards and otters.

Three Raised Peat Bogs: Some of the most intact examples of raised peat bogs in Britain, with millions of cubic metres of peat up to ten metres deep.

River Teifi and its floodplain: Internationally important in its own right as a European Special Area of Conservation (SAC) and the extensive floodplain feels wild & remote.

Old Railway Walk: The route of the old Aberystwyth to Carmarthen railway running along the margin of Cors Caron has developed a wide range of habitats since the railway's closure in the 1960s. It forms part of the Ystwyth National Cycle Trail.

www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales
0300 065 3000

Beth allwch chi ei wneud o'r fan hon?

Rydych chi wrth **Llwybr Yr Hen Reilffordd** sy'n arwain at lard yr Hen Orsaf yn Ystrad Meurig i'r dde, 3½ milltir/5.2km o'r fan hon. Dyma oedd yr hen lwybr Rheilffordd Manceinion ac Aberdaugleddau: rhan Ystrad Meurig i Dregaron, a gaeodd yn yr 1960au.

Trowch i'r chwith i ddechrau ar **Llwybr Cors Caron** â'i llwybr pren a chuddfan wyllo arbennig. Cewch fynediad o'r fan hon hefyd i **Llwybr Glan yr Afon**, naill ai trowch i'r chwith i ymuno â hi'n glocwedd ar **Llwybr Cors Caron**, neu trowch i'r dde i ymuno â hi'n wrthglocwedd ar hyd **Llwybr yr Hen Reilffordd**.

What can you do from here?

You are by the **Old Railway Walk** which leads to The Old Station Yard at Ystrad Meurig to the right, 3½ miles/5.2km from here. This used to be the route of the Manchester and Milford Railway: Ystrad Meurig to Tregaron section, which closed in the 1960s.

Turn left to start the **Cors Caron Walk** with its boardwalk and special viewing hide.

You can also access the **Riverside Walk** from here, either turn left to join it clockwise via the **Cors Caron Walk**, or turn right to join it anti-clockwise via the **Old Railway Walk**.



lindsyn gwrid y gors
rosy marsh moth caterpillar



dyfrgi
otter



madfall
common lizard

Llwybr Cors Caron

Cors Caron Walk



Hygyrch

Pellter: 1½ milltir/2.6km taith gron
Amser: 1 awr

Accessible

Distance: 1½ miles/2.6km circular
Time: 1 hour

UCHAFBWYNTIAU: Mae arwyneb bob tywydd yn addas i gadeiriau olwyn yn arwain at Guddfan y Gors hygyrch ble y gallech chi weld adar bridio ac adar gaeafu.


DISGRIFIAD: Cerddwch drwy rai o rannau mwyaf trawiadol y warchodfa. Edrychwch am weision neidr, mursennod a madfallod yn ystod yr haf.

HIGHLIGHTS: An all-weather surface suitable for wheelchair users leads to an accessible Bog Hide where you may see breeding and over-wintering birds.

DESCRIPTION: Walk through some of the most impressive parts of the reserve. Look out for dragonflies, damselflies and lizards in the summer.

Llwybr Glan yr Afon

Riverside Walk



Cymedrol

Pellter: 4½ milltir/7km taith gron
Amser: 2½ awr

Moderate

Distance: 4½ miles/7km circular
Time: 2½ hours

UCHAFBWYNTIAU: Llwybr i galon Cors Caron, golygfeydd bendigedig a'r cyfle i weld adar y dŵr, barcudiaid coch ac adar rheibus eraill.

DISGRIFIAD: Er gwybodaeth fe all y llwybr fod ar gau ar brydiau oherwydd llifogydd neu am resymau rheoli ac yn gallu bod yn fwdlyd iawn ar brydiau.

HIGHLIGHTS: A walk into the heart of Cors Caron, wonderful views and the chance of seeing waterbirds, red kites and other birds of prey.

DESCRIPTION: Please note that the walk may be closed at times due to flooding or for management reasons and can be very muddy at times.

Llwybr yr Hen Reilffordd

Old Railway Walk



Hawdd

Pellter: 6 milltir/10km allan ac yn ôl
Amser: 3 awr

Easy

Distance: 6 miles/10km there & back
Time: 3 hours

UCHAFBWYNTIAU: Mae'r rheilffordd segur yn cynnig arwyneb cadarn sy'n addas i gadeiriau olwyn ac mae'n cynnig golygfeydd da o ran helaeth o Gors Caron.

DISGRIFIAD: Mae'n rhan o Llwybr Beicio Cenedlaethol Ystwyth ac mae'r llwybr yn cael ei rannu rhwng cerddwyr, beicwyr a marchogion ceffylau.

HIGHLIGHTS: The disused railway provides a firm surface suitable for wheelchairs and gives good views over much of Cors Caron.

DESCRIPTION: This is a part of the Ystwyth National Cycle Trail and is a shared-use trail for walkers, cyclists and horse riders.

ER MWYN EICH DIOGELWCH CHI:

- Cadwch at y llwybr bardau a'r droedffordd a gwisgwch bâr da o esgidiau cerdded.
- Byddwch yn ofalus, gall sigarets a daflwyd achosi tannau 'n hawdd mewn glaswelltir tal.
- Os ddewch o hyd i wiber peidiwch â chyffwrdd!
- Mae anifeiliaid fferm yn pori rhanau o'r warchodfa - peidiwch â mynd yn agos atynt neu gelsio eu bwyd.
- Helpwch ni drwy fod yn berchenog ci cyfrifol:
 - cadwch eich ci ar dennyn os gofynnir i chi wneud hynny a chadw'ch cŵn dan reolaeth mewn mannau eraill rhag iddynt darfu ar adar sy'n nythu ar y ddaear.
 - Ni chaniateir cŵn ar Llwybr Cerdded Glan yr Afon.
 - Clinwch faw eich ci a chael gwared ohono yn gyfrifol; mae 'fflicio â ffon' yn dda!

FOR YOUR SAFETY:

- Please keep to the boardwalk and paths and wear shoes with a good grip.
- Please be careful, tall grasses can easily catch fire from discarded cigarettes.
- If you see an adder do not approach it.
- Livestock graze parts of the reserve – do not approach or try to feed them.
- Please help us by being a responsible dog owner:
 - keep your dog on a lead where asked to and keep dogs under close control elsewhere to avoid disturbing ground nesting birds.
 - No dogs are allowed on the Riverside Walk.
 - Please clear up after your dog & dispose of dog mess responsibly "stick & flick" is good!



LAWRLWYTHWCH EIN
HAPIAU DI-DÂL
ar gyfer Android ac iPhone

DOWNLOAD OUR
FREE APPS
for Android and iPhone

CYMRU | WALES
PlacesToGo

I ganfod lleoedd eraill ardderchog CNC y gellir ymweld â hwy yng Nghymru.





To find other great NRW places to visit in Wales.

CYMRU | WALES
PlaceTales

I ganfod nodweddion hynod ddifry yng nghoedwigoedd CNC a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.

To discover fascinating features in NRW forests and National Nature Reserves.

© Airbus Defence & Space a Getmapping. Atgynhyrchiwyd drwy ganiatâd Llywodraeth Cymru (Taliadau Gwledig Cymru) - Ebrill 2016
© Airbus Defence & Space a Getmapping. Reproduced by permission of Welsh Government (Rural Payments Wales) - April 2016



Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government